

# Diwrnod Cofio'r Holocaust Gwasanaeth Ysgolion Uwchradd



YMDDIRIEDOLAETH  
DIWRNOD  
COFIO'R HOLOCAST

**Athrawon** nodwch fod y gwasanaeth hwn yn addas ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5 neu gyfwerth.

Mae'n esbonio beth yw Diwrnod Cofio'r Holocaust a pham ddylem ni ei nodi. Nid ydym wedi gwahanu'r wybodaeth ar gyfer gwahanol grwpiau oedran uwchradd fel bod gennych chi'r hyblygrwydd i gyflwyno'r neges i wahanol fathau o grwpiau gwasanaeth ar neu o gwmpas 27 Ionawr, fel sy'n addas i'ch ysgol a'ch anghenion.

Rydym ni wedi darparu sript a sleidiau PowerPoint i helpu athrawon i gyfleu'r wybodaeth a negeseuon allweddol yn ôl y gofyn. Mae croeso i chi addasu ac amrywio'r iaith a'r cynnwys fel y mynnwch ar gyfer eich myfyrwyr chi.

## Cynnwys myfyrwyr yn y gwasanaeth

Gallai nifer o fyfyrwyr helpu'r athro i ddarllen y sript isod.

Mae ein gwefan yn cynnwys cynllun gwern ddrama, cynllun gwern farddoniaeth, tiwtorial ar ddawns o Rwanda a set o daflenni canu. Mae'r holl adnoddau hyn yn cynnig cyfle i grwpiau o fyfyrwyr baratoi rhywbeth ymlaen llaw i'w gyflwyno fel rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r adnoddau hyn ar gael yn [hmd.org.uk/education](http://hmd.org.uk/education).

## Sript y gwasanaeth:

### Sleid 1 – Teitl

Dangoswch hwn wrth i'r myfyrwyr gyrraedd.

### Sleid 2 – Yr Holocaust

Heddiw (27 Ionawr) yw Diwrnod Cofio'r Holocaust.

Rydym ni'n nodi'r diwrnod bob blwyddyn i gofio am y chwe miliwn o Iddewon a gafodd eu herlid a'u llofruddio'n systematig gan y Natsïaid a'u cydweithredwyr yn ystod yr Holocaust.

### Sleid 3 – Pam 27 Ionawr?

Dyma'r diwrnod y cafodd Auschwitz-Birkenau, gwernsyll difa mwya'r Natsïaid, ei ryddhau.

## Sleid 4 – Susan Pollack

Fe ddioddefodd Susan, merch o Hwngari, wrth-Semitiaeth o oedran ifanc iawn. Ym 1944, cafodd ei hanfon i Auschwitz-Birkenau a'i gwahanu oddi wrth ei theulu. Ar ôl y rhyfel, clywodd fod 50 aelod o'i theulu wedi'u lladd ac mai dim ond hi a'i brawd oedd wedi goroesi.

## Sleid 5 – Erledigaeth y Natsïaid

Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, rydym ni'n cofio hefyd am y grwpiau eraill o bobl a gafodd eu herlid a'u llofruddio gan y Natsïaid: pobl Roma a Sinti (sipsiwn), pobl anabl, pobl hoyw, Tystion Jehofa, gwrthwynebwyr gwleidyddol a llawer mwy.

## Sleid 6 – Rudolf Brazda

Rudolf Brazda oedd goroeswr olaf y gwerysilloedd crynhoi y gwyddom amdano, a chafodd ei alltudio am ei fod yn ddyn hoyw. Cafodd ei anfon i'r carchar ddwywaith, ac yna'i alltudio i garchar crynhoi Buchenwald ym 1942 lle cafodd ei orfodi i lafur caled am 32 mis.

## Sleid 7 – Hil-laddiad ym mhedwar ban byd

Wedi'r 'Holocaust', fe wnaeth pobl y byd ddweud 'Byth eto'. Ond rydym ni wedi methu â dysgu gwersi'r Holocaust, ac mae achosion o hil-laddiad yn dal i ddigwydd ledled y byd, hyd heddiw. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, rydym ni'n cofio am y miliynau o ddynion, menywod a phlant a laddwyd mewn enghreifftiau o hil-laddiad ers hynny – yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

## Sleid 8 – Eric Eugene Murangwa

Roedd Eric yn chwarae i brif dîm pêl-droed Kigali. Yn ystod yr hil-laddiad yn Rwanda, fe wnaeth ei gydchwaraewyr ei warchod rhag yr holl ladd. Heddiw, mae Eric yn gyfrifol am sefydliad sy'n defnyddio pêl-droed i hyrwyddo goddefgarwch, undod a chymodi yn y DU a Rwanda.

## Sleid 9 – Beth yw hil-laddiad?

Hil-laddiad yw pan mae grŵp o bobl yn cael eu targedu i'w lladd dim ond oherwydd pwy ydyn nhw, am resymau fel eu hil neu eu crefydd.

## Sleid 10 – Deg cam hil-laddiad

Dydy hil-laddiad ddim yn digwydd dros nos – mae'n digwydd o ganlyniad i ragfarn ac erlid lle mae carfan o bobl yn cael eu trin yn wahanol i weddill cymdeithas. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust, cawn ein hatgoffa o'r hyn sy'n gallu digwydd os na fyddwn yn herio rhagfarn ac erledigaeth, ac am ein cyfrifoldeb i frwydro'n erbyn y prosesau hyn pan fyddwn yn eu gweld yn digwydd yn ein cymunedau ni. Mae'r llun hwn yn dangos '10 cam hil-laddiad' ac yn ein helpu i wybod pa arwyddion rhybudd i'w nodi. Gallai'r camau hyn ddigwydd ar yr un pryd neu mewn trefn wahanol.

### Nodyn i athrawon:

Mae deg cam hil-laddiad yn seiliedig ar waith ymchwil Dr Gregory H Stanton: [genocidewatch.com](http://genocidewatch.com). Os hoffech ragor o wybodaeth am y camau, gallwch weld a lawrlwytho'r poster llawn yn [hmd.org.uk](http://hmd.org.uk)

## Sleid 11 – Beth sy'n digwydd ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost?

Ledled y DU, mae miloedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol yn cael eu cynnal bob blwyddyn, mewn ysgolion, cymunedau, llyfrgelloedd, carchardai, amgueddfeydd ac orielau, ymhlith grwpiau ffydd a llawer mwy. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys goleuo canhwyllau, perfformiadau, prosiectau celf, darlleniadau, sgysiau a llawer mwy. Mae pob digwyddiad yn gyfle i bobl fyfyrion a chnoi cil ar fywydau eraill sydd wedi'u heffeithio gan hil-laddiad, a herio rhagfarn, gwahaniaethu a chasineb yn ein cymdeithas heddiw.

## Sleid 12 – Pam mae hyn yn bwysig i ni?

Mae pobl yn dioddef achosion o wahaniaethu heddiw oherwydd eu crefydd, hil, rhywioldeb neu elfen arall o'u hunaniaeth. Er nad ydym ni mewn perygl uniongyrchol o hil-laddiad yn y DU, mae rhagfarn a sgysiau casineb i'w gweld yn aml ar-lein, a mwy a mwy o droseddau casineb yn cael eu cofnodi bob blwyddyn. Y tu allan i'r DU, heddiw ar yr eiliad hon, mae hil-laddiad yn digwydd yn rhanbarth Darfur, sy'n rhan o wlad y Swdan yn Affrica.

## Sleid 13 – Beth allwn ni ei wneud?

Ar y sgrin, fe welwch chi lawer o syniadau o bethau mae unigolion, grwpiau ac ysgolion wedi'u gwneud yn y gorffennol i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, a chofio'r rhai a lofruddiwyd. Trwy gynnal y gwasanaeth hwn, rydym ni eisoes yn gwneud rhywbeth i nodi'r diwrnod, yn dysgu am hil-laddiad ac yn cofio am y rhai a gafodd eu heffeithio. Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am bethau i'w gwneud?

## Sleid 14 – Cerdd – Auschwitz, gan Charles N. Whittaker.

### Nodyn i athrawon:

Gweler y gerdd isod. Mae'r sleid yn cynnwys sain, neu gall myfyriwr neu athro ei darllen. Os yw'ch myfyriwr chi wedi paratoi rhywbeth arall i'w ddarllen neu ei berfformio, ychwanegwch ef yma.

The semiquaver chugging of the train on the track  
And the people on board who will never go back  
And the terror in the eyes of all the young ones to go  
With no one knowing as the train comes to slow

Those men at the station as the ramps drop down  
Where humanity lost is the only crippled sound  
Hope gone for those who stand behind the hard sharp wire  
And the smoke in the towers rises just a little higher

And the blue ink stabs a little harder in the skin  
Above the veins of despair where murder let it in  
And the terror in the eyes of all those about to leave  
Another train on the track no last minute reprieve

And the slow, crot...chet chugging of the train on the track;  
And the people on board. Who will ne...ver go.

Back.

## Sleid 15 – Rhaglen ieuenctid

Gall pobl ifanc gymryd rhan yn Niwrnod Cofio'r Holocaust trwy gyfrwng rhaglen ieuenctid. Fel rhan o'r rhaglen hon, byddwch yn dysgu mwy, yn cymryd rhan mewn heriau, ac yn cael cymorth i wneud eich gweithgareddau'ch hun ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust. Os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, mae cyfeiriad y wefan ar y sgrin.

## Sleid 16 – Diwrnod Cofio'r Holocaust

Heddiw, gadewch i bob un ohonom ni addo gwneud rhywbeth, yn y dosbarth neu fel ysgol, i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust a sefyll yn erbyn rhagfarn. Beth am fynd ati i ddysgu am ble mae hil-laddiad yn digwydd, ar bwy mae'n effeithio a dweud wrth bobl eraill am yr hyn rydym ni wedi'i ddysgu.

## Sleid 17 – Defnyddia dy lais gwych

Byddwn yn gorffen gyda ffilm fer, sy'n ein hatgoffa o'r grym sydd gennym i sefyll yn gadarn a siarad yn erbyn rhagfarn a chasineb heddiw.

## Sleid 18 – Y Diwedd

# Rhagor o wybodaeth...



Adnoddau eraill Diwrnod Cofio'r Holocaust ar gyfer addysgwyr:

[hmd.org.uk/education](https://hmd.org.uk/education)

Straeon bywyd gan rai wedi'u heffeithio gan hil-laddiad:

[hmd.org.uk/lifestories](https://hmd.org.uk/lifestories)

[hmd.org.uk](https://hmd.org.uk)  
[enquiries@hmd.org.uk](mailto:enquiries@hmd.org.uk)  
020 7785 7029

 @hmd\_uk  
 hmd.uk

*Dysgu o hil-laddiad – er dyfodol gwell*